**County Hall**
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

**Neuadd y Sir**
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk

Rhagfyr 2016

Annwyl Riant (Rhieni) / Gwarcheidwad (Gwarcheidwaid)

**Trefniadau Derbyn Addysg Uwchradd Cydlynol 2018-2020**

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i dreialu trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer Blwyddyn 7 ym mis Medi 2018, Medi 2019 a Medi 2020.

Os cânt eu gweithredu, byddai trefniadau derbyn ysgolion uwchradd cydlynol yn rhoi lle ysgol sengl i fwy o rieni ar gyfer eu plentyn, a fyddai'n system decach, fwy cydradd o ddyrannu lleoedd ysgol yng Nghaerdydd.

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ac yn cael gwybod sut i ddysgu mwy am yr hyn sy'n cael ei ystyried a sut i roi barn ar y cynnig.

Mae'r ddogfen ymgynghori, sy'n cynnwys manylion y system gyfredol ac arfaethedig o ddyrannu lleoedd ysgol Blwyddyn 7 yng Nghaerdydd a ffurflen ymateb ar-lein, ar gael ar wefan y Cyngor drwy ddilyn y ddolen isod:

**www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn**

Os hoffech gael copi caled o'r ddogfen ymgynghori cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar 029 2087 2720, e-bostiwch **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk** neu ewch i'ch hyb Cyngor lleol.

Cynhelir sesiynau galw heibio ledled y ddinas lle gallwch ofyn cwestiynau neu gael rhagor o wybodaeth. Ceir manylion am y rhain ar wefan y Cyngor uchod.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg tan **23 Ionawr 2017**. I roi eich barn erbyn y dyddiad hwn, gallwch gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein neu fel arall anfonwch eich barn i'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion dros e-bost i **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk** neu drwy'r post i Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

**Sicrhewch eich bod wedi cyflwyno eich barn i ni erbyn 23 Ionawr 2017.** Yn anffodus ni allwn ystyried ymatebion a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Yn gywir

Nick Batchelar

**Nick Batchelar**
**Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Delivering our vision of becoming Europe's most liveable capital city**
The Council welcomes correspondence in English and Welsh and we will ensure that we communicate with you in the language of your choice, whether that's English, Welsh or bilingual as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.

**Cyflawni ein gweledigaeth o ddod y brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop**
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.